# Atodiad C

## Cynllun Cyfathrebu

### Pwrpas

Pwrpas y cynllun hwn yw gosod allan sut bydd Cyngor Gwynedd yn cyfathrebu gwybodaeth yn eglur, yn gyson ac yn amserol gyda'r holl rhanddeiliaid perthnasol, er mwyn cwrdd ag amcanion y Cynllun Ymateb.

Nod y cynllun yw cyfrannu tuag at adfer ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd a'r rhanddeiliaid yng ngweithrediad y Cyngor ac Ysgol Friars. Bydd y Cyngor yn cwrdd a'r nod hyn drwy:

- Adnabod y rhanddeiliaid allweddol;
- Cydgordio'r cyfathrebu gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol;
- Darparu gwybodaeth gywir a chyfredol ar gyfer pob carreg filltir berthnasol;
- Darparu gwybodaeth mewn ymateb i ddatblygiadau.

Mae cyfrifoldeb ar draws y sefydliad i fwydo gwybodaeth perthnasol i fewn i'r Cynllun Cyfathrebu, a rôl y Gwasanaeth Cyfathrebu canolog yw cynghori a chefnogi ar y dulliau cyfathrebu mwyaf addas.

### Rhaglen waith

Yn ogystal a darparu diweddariadau rheolaidd, dros y misoedd i ddod, rhagwelir y bydd angen llunio cynlluniau cyfathrebu penodol ar gyfer sawl cam yn ystod y broses adfer. Rhagwelir y bydd y camau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) – paratoi i ymateb i unrhyw gyhoeddiadau gan y Bwrdd Diogelu a, maes o law, cyhoeddi'r adroddiad terfynol;
- Newidiadau yn Ysgol Friars – er enghraifft penodi pennaeth dros dro fydd yn dechrau yn ei gwaith ar ôl Pasg 2025;
- Cyhoeddi canlyniadau ymchwiliadau eraill

**Camau cyfathrebu**

| Rhanddeiliaid / Cynulleidfa | Beth | Cyfrifoldeb pwy | Sut | Pryd |
|---|---|---|---|---|
| **Dioddefwyr a'u teuluoedd** | Rhaeadru gwybodaeth am y cynllun ymateb ac ateb cwestiynau | Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru / Cadeirydd Panel Adolygiad Ymarfer Plant / Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr i weithredu fel dolen gyswllt rhwng Cyngor Gwynedd a'r dioddefwyr ac i roi arweiniad am y camau cyfathrebu priodol | Cyngor Gwynedd i weithredu yn unol a'r arweiniad a dderbynnir gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru / Cadeirydd Panel yr Adolygiad Ymarfer Plant / Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr, a'u bod yn derbyn gwybodaeth a chyswllt mewn ffordd o'u dewis | Yn ôl yr angen |
| **Ysgol Friars** | Diweddaru disgyblion / rhieni | Arweinyddiaeth yr ysgol.<br><br>Gwasanaeth Cyfathrebu i gefnogi yn ôl yr angen | Trefniadau arferol yr ysgol – cyfarfodydd disgyblion, e-bost / neges testun i rieni ac ati | • Diweddariadau rheolaidd<br><br>• Diweddariadau ychwanegol amserol yn ôl yr angen |
| | Diweddaru Llywodraethwyr | Arweinyddiaeth yr ysgol / yr Adran Addysg | • Cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb<br>• Diweddariadau e-bost yn ôl yr angen | |
| | Diweddaru staff | Arweinyddiaeth yr ysgol / Cadeirydd y Llywodraethwyr / yr Adran Addysg | | |
| **Cabinet Cyngor Gwynedd** | Diweddariadau rheolaidd | Prif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol / Pennaeth Adran perthnasol | • Cyfarfodydd briffio wyneb-yn-wyneb<br>• Diweddariadau e-bost yn ôl yr angen os oes mater brys yn codi | Misol / yn ôl yr angen |
| **Aelodau etholedig Cyngor Gwynedd** | Diweddariadau rheolaidd | Arweinydd ac Aelodau Cabinet perthnasol / Prif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol / Pennaeth Adran perthnasol<br><br>Gwasanaeth Cyfathrebu i gefnogi a chynghori yn ôl yr angen | • Diweddariad dros e-bost<br>• Bwletin Aelodau<br>• Sesiwn briffio (Teams) | Misol / yn ôl yr angen |

| Cynulleidfa / rhanddeiliaid (pwy) | Beth | Cyfrifoldeb pwy | Sut | Pryd |
|---|---|---|---|---|
| **Staff Cyngor Gwynedd** | Diweddariadau yn ôl yr angen | Prif Weithredwr<br><br>Gwasanaeth Cyfathrebu i gefnogi a chynghori yn ôl yr angen | • Bwletin y Prif Weithredwr<br>• "Sesiwn Byw" y Prif Weithredwr<br>• Rhwydwaith rheolwyr ac arweinyddion tîm<br>• Rheolwyr i raeadru gwybodaeth i staff | |
| **Aelodau Senedd / Senedd Cymru sy'n cynrychioli etholaethau o fewn Gwynedd** | Diweddariadau rheolaidd | Arweinydd / Prif Weithredwr<br><br>Gwasanaeth Cyfathrebu i gefnogi yn ôl yr angen | • Neges e-bost / Cyfarfodydd briffio | Misol/ Yn yr ôl yr angen |
| **Ysgolion eraill y sir** | Diweddariadau rheolaidd | Pennaeth Addysg / Aelod Cabinet Addysg | • Neges e-bost / Cyfarfodydd penaethiaid | Yn yr ôl yr angen |
| **Pobl Gwynedd yn ehangach** | Diweddariadau yn ôl yr angen | Arweinydd<br>Prif Weithredwr<br>Gwasanaeth Cyfathrebu | • Datganiadau i'r wasg<br>• Ymateb i gwestiynau / ceisiadau gan y wasg<br>• Cyhoeddi diweddariadau ar wefan y Cyngor<br>• Dolen i wybodaeth berthnasol ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor pan fo hynny'n briodol<br>• Drwy Aelodau lleol | Yn yr ôl yr angen |
| **Y Wasg – cyfathrebu rhagweithiol** | Diweddariadau rheolaidd | Gwasanaeth Cyfathrebu<br>Arweinydd<br>Prif Weithredwr<br>Aelod Cabinet perthnasol | • Datganiadau i'r wasg<br>• Gwneud trefniadau addas i rannu gwybodaeth pan fo hynny'n amserol a phriodol | Yn ôl yr angen |
| **Y Wasg – cyfathrebu ymatebol** | Yn ôl yr angen | Gwasanaeth Cyfathrebu<br>Arweinydd<br>Prif Weithredwr<br>Aelod Cabinet perthnasol | • Cofnodi ymholiadau a chydgordio'r ymatebion | Yn ôl yr angen |

| Cynulleidfa / rhanddeiliaid (pwy) | Beth | Cyfrifoldeb pwy | Sut | Pryd |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **Cynghorau cyfagos (disgyblion o siroedd eraill)** | Diweddariadau yn ôl yr angen | Prif Weithredwr / Arweinydd | • Rhannu gwybodaeth gydag arweinyddion a phrif weithredwyr o'r awdurdodau eraill | Yn ôl yr angen |
| **Partneriaid allweddol**<br>• **Llywodraeth Cymru**<br>• **Comisiynydd Plant Cymru** | Diweddariadau yn ôl yr angen | Prif Weithredwr / Arweinydd | • Cyfarfodydd<br>• Diweddariadau ar e-bost | Yn ôl yr angen |